


# Festival of Muslim Cultures Print Project



mads  
gaa



# Festival of Muslim Cultures **Print Project**

Acknowledgments

2

The Festival of Muslim Cultures

3

Foreword

5

A Brief Encounter

6

Atif Khan

8

Aleem Khan

10

Outreach Artists

12

Asylum Seekers in Blaenymaes

20

Coed Hirwaun School

22

Gorseinon College

24

Graig Infants School

26

Gŵyr School

28

Childrens Workshop Schools and Colleges

30

Master Class

32

Muslim Women

34

Over 50's in Castle Ward

36

Penclawdd Junior School

38

St Thomas School

40

Terrace Road School

42

Ynystawe Primary School

44

Swansea Print Workshop

46

**mds**  
**gaa**

## Acknowledgments

Sarah Hopkins – Project Manager and Editor

Carolyn Davies – Foreword

Rebecca Brown – A Brief Encounter

Artists in residence Atif Khan and Aleem Khan

The Outreach Team; Alan Williams, Sameera Khan, Nina Morgan, Gwenllian Beynon, Kara Seaman, Zena James, Melanie Lloyd, Victoria Malcolm, Peter Visscher, Jenny Devereaux and Sarah Hopkins

Jackie Ford, Lorna Packer, management, staff and volunteers at Swansea Print Workshop

Naz Malik, All Wales Ethnic Minority Association

Assim Akhtar – Urdu translation

City and County of Swansea – Welsh translation



Denise Thorrington and Jade Rees – Photography

Education Learning Resource Service – Resource/Art Packs

Minority Ethnic Women's Network Wales

Ridler Webster - Brochure design

Common Investment Fund (Logo to follow)



## The Festival of Muslim Cultures

The Festival of Muslim Cultures is a year-long celebration of arts, humanities, education and discourse that seeks to foster an improved understanding and appreciation for Muslim cultures. The project was conceived in 2002 and its patron appointed; HRH Prince of Wales. Major events and exhibitions have been organised across the United Kingdom in which moderate Muslim voices can be heard and negative stereotypes challenged. A vast programme of events has been developing since then, inspired by the belief that the arts can play a role in changing society for the better by enabling people to enter into the experiences of others.

The Festival of Muslim Cultures Print Project launched Swansea Print Workshop onto an international platform as it welcomed two artists from Pakistan for a twelve week residency and an exhibition of contemporary Pakistani printmaking, which toured to three venues in the UK. Operating as a springboard to launch a programme of artist led workshops, it stretched across communities living in and around Swansea. Professional printmakers living in Wales worked alongside our resident artists and helped to establish an 'Outreach Team', who visited communities and schools to share their expertise. The aim was to expose a wide audience to Muslim Cultures through the medium of printmaking and to join in the celebration of cultural and creative exchange.

Exceeding all expectations, the programme had a profound impact on those who participated. The vibrant *Contemporary Pakistani Printmakers* exhibition and artists in residence, Atif Khan and Aleem Khan enriched the visual language and vocabulary of all those who participated. Immersed in our culture, and us embracing theirs for this brief period, was an engaging and enlightening adventure; East meets West meets East.

SARAH HOPKINS Project Manager

## Gŵyl Diwylliannau Mwslimaidd

Mae Gŵyl Diwylliannau Mwslimaidd yn ddathliad blwyddyn o hyd o gelfyddydau, dynoliaethau, addysg a thrafodaeth sy'n anelu at feithrin gwell dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o ddiwylliannau Mwslimaidd. Datblygwyd syniad y prosiect yn 2002 a phenodwyd ei noddwr: EUB Tywysog Cymru. Trefnwyd digwyddiadau ac arddangosfeydd pwysig ar draws y Deyrnas Unedig i roi llais i syniadau Mwslimaidd cymedrol a herio ystrydebau negyddol. Mae rhaglen enfawr o ddigwyddiadau wedi bod yn datblygu ers hynny, wedi'i hysbrydoli gan y syniad y gall y celfyddydau chwarae rôl wrth newid cymdeithas er gwell drwy alluogi pobl i ymgymryd â phrofiadau pobl eraill.

O ganlyniad i Wyl Diwylliannau Mwslimaidd, lanswyd Gweithdy Printio Abertawe ar lwyfan ryngwladol oherwydd iddo groesawu dau artist o Bacistan ar gyfer preswyliaid deuddeg wythnos ac arddangosfa o waith gwneud printiau Pacistanaidd cyfoes, a deithiodd i dri lleoliad yn y DU. Yn gweithredu fel symbyliad i lansio rhaglen o weithdai a arweinir gan artistiaid, estynnodd ar draws cymunedau sy'n byw yn Abertawe a'r cylch. Gweithiodd gwneuthurwyr printiau proffesiynol sy'n gweithio yng Nghymru wrth ochr ein artistiaid preswyl, gan helpu i sefydlu 'Tîm Allgymorth', a ymwelodd â chymunedau ac ysgolion i rannu'u harbenigedd. Y nod oedd datgelu Diwylliannau Mwslimaidd i gynulleidfa eang drwy gyfrwng gwneud printiau ac ymuno wrth ddathlu cyfnawid diwylliannol a chreadigol.

Gan ragori ar bob disgwyliaid, cafodd y rhaglen effaith ddwys ar y rheiny a gymerodd ran. Cyfoethogwyd iaith a geirfa weledol pawb a gymerodd ran yn yr arddangosfa *Contemporary Pakistani Printmakers* fywiog gan yr artistiaid preswyl, Atif Khan ac Aleem Khan. Roedd ymdrochi nhw yn ein diwylliant ni a chael cyfle i ymgymryd â'u diwylliant nhw am gyfnod byr yn antur ddymunol a goleuol; y Dwyrain yn cwrdd â'r Gorllewin sy'n cwrdd â'r Dwyrain.

SARAH HOPKINS Rheolwr y Prosiect



سَوَادٌ كَبُرُوا لَكَ بِإِلْفِ شَرِيحِ الرَّايِ وَالْعَا  
عَمَّا قَالُوا لَمَنْ مَرَايَا ظَارِهَا  
النَّعْمَةُ مَوْدِدَةٌ

R/P J. Wankhary 06  
Relief

## Foreword

When artists work with communities and schools, the experience can act as a catalyst for everyone involved and can be powerful, enabling and inspiring.

The opportunities afforded by the Festival of Muslim Cultures Print Project are much wider reaching; it brings the wealth and richness of two diverse cultures together through one common medium - printmaking - to communicate, share and celebrate diversity. The project dealt with image, symbol and text as a theme, generating a huge variety of responses from all participants.

Though each lead artist and printmaker had a different starting point, they dealt with themes familiar to their individual culture. This offered others the chance to discover insights into the cultural exchange between Wales and Pakistan.

A child's mind is open to new experience; enquiring and responsive to each new stimulus. Older people bring a more considered and reflective approach; discovering through printmaking, a new voice to communicate their thoughts, feelings and memories.

Groups from schools and the community were invited to visit the Contemporary Pakistani Printmakers exhibition at Oriol Ceri Richards Gallery, Swansea to hear the artists discuss the work on display. Over seventeen hundred participants including children, young people and other groups in the community worked with both Welsh and Pakistani printmakers. This enabled them to make connections between cultures and present their own ideas through the practical workshops.

The diverse body of work that was produced is testimony to the success of the project. A selection is presented at this exhibition, demonstrating the breadth and quality of the work; the exhibition is a celebration of both the work and the learning processes involved.

The programme has had a positive impact on all those who have taken part; the legacy is in the knowledge and understanding of Muslim cultures fostered by the practical elements, and the warmth of the new friendships forged by the exchange.

CAROLYN DAVIES Arts Adviser  
Education Department, City and County of Swansea

## Rhagair

Pan fydd artistiaid yn gweithio gyda chymunedau ac ysgolion, gall y profiad fod yn gatalydd i bawb sy'n gysylltiedig ac fe all fod yn rymus, yn alluogol ac yn ysbrydoledig.

Mae'r cyfleoedd a gynigir gan Brosiect Printiau Gŵyl y Diwylliannau Mwslimaidd yn ehangach o lawer; mae'n dod â chyfoeth dau ddiwylliant gwahanol ynghyd trwy un cyfrwng cyffredin – gwneud printiau – i gyfathrebu, rhannu a dathlu amrywiaeth. Deliodd y prosiect â delwedd, symbol a thestun fel thema, gan gynhyrchu amrywiaeth enfawr o ymatebion gan yr holl gyfranogwyr.

Er bod gan bob artist a gwneuthurwr printiau arweiniodd fan cychwyn gwahanol, deliwyd â themâu a oedd yn gyffredin i'w diwylliant unigol. Rhoddodd hyn gyfle i bobl eraill gael goleuni ar y cyfnewid diwylliannol rhwng Cymru a Phacistan.

Mae meddwl plentyn yn agored i brofiadau newydd; yn holgar ac yn ymatebol i bob symbyliad newydd. Mae pobl hŷn yn defnyddio ymagwedd fwy ystyriol a myfyriol; gan ddarganfod, trwy wneud printiau, llais newydd i gyfleu eu meddyliau, eu teimladau a'u hatgofion.

Gwahoddwyd grwpiau o ysgolion a'r gymuned i ymweld â'r arddangosa Contemporary Pakistani Printmakers yn Oriol Ceri Richards, Abertawe i glywed yr artistiaid yn trafod y gwaith a oedd yn cael ei arddangos. Gweithiodd dros ddau gant ar bymtheg o gyfranogwyr, gan gynnwys plant, pobl ifanc a grwpiau eraill yn y gymuned, gyda gwneuthurwyr printiau o Gymru a Phacistan. Rhoddodd hyn gyfle iddynt wneud cysylltiadau rhwng y diwylliannau a chyflwyno eu syniadau eu hunain trwy'r gweithdai ymarferol.

Mae'r corff amrywiol o waith a gynhyrchwyd yn dystiolaeth o lwyddiant y prosiect. Cyflwynir detholiad ohono yn yr arddangosfa hon, gan ddangos ehangder ac ansawdd y gwaith. Mae'r arddangosfa'n dathlu'r gwaith a'r prosesau dysgu a fu'n gysylltiedig.

Mae'r rhaglen wedi cael effaith gadarnhaol ar bawb a gymerodd ran ynddi. Mae'r etifeddiaeth yn y wybodaeth a'r ddealltwriaeth o ddiwylliannau Mwslimaidd a feithrinwyd gan yr elfennau ymarferol, a chynheswyd y cyfeillgarwch newydd a ffurfiwyd gan y cyfnewid.

CAROLYN DAVIES Ymgynghorydd y Celfyddydau  
Adran Addysg, Dinas a Sir Abertawe

## Cyfarfyddiad Byr

Daeth Aleem Khan ac Atif Khan i Gymru o Bacistan fel 'artistiaid preswyl'. Ond beth mae hyn yn ei olygu, pan fydd un yn teithio o un ardal llawn mynyddoedd ar yr arfordir i ardal arall, sy'n llawn mynyddoedd ac ar yr arfordir? Beth yw ystyr artist 'preswyl'? Mae'n golygu mwy na thwristiaeth a llai nag adleoli: cyfarfyddiad byr. Ond, pa mor fyr bynnag ydynt, mae'r cyfarfyddiadau hyn yn funudau angerddol, dwys, cyffrous sydd, yn anochel, yn cynhyrchu cyfleoedd ar gyfer cyfathrebu ar draws diwylliannau. Pan fydd hyn yn digwydd gydag artistiaid, mae'r cysylltiadau'n bwerus, achos mae celf yn gallu siarad heb iaith lafar gyffredin. Daeth Aleem ac Atif i Gymru fel 'artistiaid preswyl' o Bacistan ac aethant yn ôl i Bacistan gan gredu'n gryf yn eu calonnau ac yn eu harferion celf.

Mae Cymru a Phacistan yn fannau amrywiol. Mae mynyddoedd gogledd Cymru'n cynhyrchu diwylliant a thafodiaith ranbarthol wahanol na'i thraethau deheuol. Mae'r un peth yn wir am Bacistan. Daw Aleem o'r gogledd, ger Gilgit, lle mae hinsawdd yr Himalayas yn ffurfio'i waith a'i fywyd a lle mae nifer o ddiwylliannau'n croestorri drwy hanes hir o fasnach. Mae Atif yn byw i'r de yn Lahore, prif dalaith y Punjab a dinas afonol o gelf a diwylliant sy'n derbyn etifeddiaeth Ymerodraeth fawr y Mughal. Daethant at ei gilydd yn Abertawe, dinas ar lan afon a bae, lle cawsant gyfarfyddiad byr gyda diwylliant Cymru, a chawsom ni gyfarfyddiad byr gyda'r ddau ddiwylliant Pacistanaidd gwahanol hyn.

Pan siaradais â nhw ar ddiwedd eu hamser yng Nghymru, gofynnais iddynt beth yr oeddent wedi darganfod yma a beth fydd yn gadael gyda nhw. Disgwyliais atebion yn ymwneud â'u hymarfer celf, neu epiffaniau y cawsant dros intaglio mewn Gweithdy Argraffu yn Abertawe. Yn hytrach, siaradodd y ddau fyfyrwr ifanc am eu profiadau'n gweithio gyda phobl Abertawe, o fyfyrwr ifanc yn yr ysgolion lleol i bensiynwyr i grwpiau o fewnfudwyr 'preswyl' parhaol. Roedd y gwrid sydd gan athro/athrawes sydd wedi dysgu mwy gan y myfyrwr na'r hyn yr oeddent nhw wedi'i ddysgu ganddo ef/hi yn perthyn iddynt. Trwy ddangos i blant sut i ysgrifennu eu henwau yn Wrđw a dangos bod celf o Bacistan yn gallu, yn wir, cynnwys ffigurau ac anifeiliaid, rhannodd Aleem ac Atif eu byd gyda Chymru. A pherodd Gymru syndod iddyn nhw hefyd. Roedd didwylledd a haelioni'r rhan hon o'r byd yr un fath â'u gwlad eu hunain, syndod hapus i'r ddau ohonynt.

Mae Atif yn dychwelyd adref gydag eicon Cymreig: y llwy garu. Mae'n rhagweld y bydd y siâp hwn yn cael ei gynnwys yn ei waith gweledol, gan ei helpu i siarad ar draws diwydiannau a rhannu'r haelioni a gafodd yng Nghymru. Bydd Aleem yn gadael gyda'r profiad o weithio gyda rhaglenni celf cymunedol, rhywbeth y mae'n gyffrous i fynd adref gydag ef i ogledd Pacistan. Roedd hwn yn gyfarfyddiad byr, i Aleem, i Atif, ac i Gymru, ond fe deimlir ei ôl-effeithiau am flynyddoedd wrth i ni barhau i rannu a thyfu drwy'r munudau 'preswyl' byr hyn.

REBECCA M. BROWN, Darlithydd, Yr Adran Wleidyddiaeth a Chysylltiadau Rhyngwladol, Prifysgol Cymru, Abertawe.





## Muhammad Atif Khan



Born in Sahiwal, Pakistan in 1972, Atif Khan graduated in Fine Art from the National College of Arts in Lahore. In 1999 he was awarded the UNESCO-ASHBURG Bursary and completed a residency at Darat-al-Funun in Amman, Jordan. He has exhibited throughout Asia and in USA, Finland, Germany and Poland and his work features in collections in the UK, Jordan and in Pakistan.

Atif Khan travelled from Lahore to Swansea in November 2005 for the three month artist in residence programme at Swansea Print Workshop. Whilst in Swansea he developed a new series of images, exploring differences between eastern and western cultures, focusing on personal, social and political issues.

*My works are narrative in nature. One can find recognisable objects and symbols in them, which denote obvious meanings. These can lead the viewer to find hidden messages. Images of diverse and contrasting environments are juxtaposed in one space, subverting their original contextual meaning and suggesting new messages.*

*As well as furthering my personal work during the residency I was also able to develop the technical side of my working practice; the cyanotype process and non-toxic printmaking techniques, which are in everyday use at the Workshop, are valuable additions to studio practice that I am keen to relay to my students at the National College of Arts in Lahore. Beside the printmaking experience, I was also invited to join a book making workshop in which I made my first hand-made Coptic stitch book. I also got the chance to visit some special places; Rhosilli and Brecon were the most memorable. Swansea gave me such a welcome – it was like being at home.*

Ac yntau wedi'i eni yn Sahiwal, Pacistan ym 1972, graddiodd Atif Khan yn y Celfyddydau Cain o'r Coleg Celf Cenedlaethol yn Lahore. Ym 1999 enillodd Fwrsariaeth UNESCO-ASHBURG a chwblhaodd gyfnod preswyl yn Darat-al-Funun yn Aman, Gwlad Iorddonen. Mae wedi arddangos ledled Asia ac yn UDA, y Ffindir, yr Almaen a Gwlad Pwyl ac mae ei waith wedi ymddangos mewn casgliadau yn y DU, Gwlad Iorddonen a Phacistan.

Teithiodd Atif Khan o Lahore i Abertawe ym mis Tachwedd 2005 i dreulio tri mis fel rhan o raglen arlunwyr preswyl Gweithdy Printio Abertawe. Tra oedd yn Abertawe, datblygodd gyfres o ddelweddau newydd, gan archwilio'r gwahaniaethau rhwng diwyllianau'r gorllewin a'r dwyrain, a chanolbwyntio ar bynciau personol, cymdeithasol a gwleidyddol.

*Mae fy ngweithiau'n naratif o ran eu natur. Gall rywun ddod o hyd i wrthrychau a symbolau cyfarwydd ynddynt, sy'n dynodi ystyron amlwg. Gall y rheiny arwain y sylwedydd at negeseuon cudd. Cyfodir delweddau amgylcheddau amrywiol a chyferbyniol mewn un gofod, gan guddio'u hystyron cyd-destunol gwreiddiol ac awgrymu negeseuon newydd.*

*Yn ystod y cyfnod fel arlunydd preswyl roeddwn nid yn unig yn gallu hyrwyddo fy ngwaith personol ond hefyd datblygu ochr dechnegol fy arferion gwaith; mae'r broses cyanoteip a thechnegau diwenwyn gwneud printiau, sy'n cael eu defnyddio bob dydd yn y Gweithdy, yn ychwanegiadau gwerthfawr at arfer stiwdio yr wyf yn awyddus iawn i'w trosglwyddo i'm myfyrwyr yn y Coleg Celf Cenedlaethol yn Lahore. Ar wahân i'r profiad o wneud printiau, cefais wahoddiad i ymuno â gweithdy gwneud llyfr lle bûm yn gwneud fy llyfr pwytho Coptaidd â llaw cyntaf. Cefais gyfle hefyd i ymweld â rhai manau arbennig iawn; Rhosilli ac Aberhonddu oedd y mwyaf cofiadwy. Cefais y fath groeso yn Abertawe – roedd fel bod gartref.*



## Aleem Khan



Born in Karimabad, Hunza, Aleem studied at the National College of Arts in Lahore and gained an Honours Degree in Fine Art. He specialised in painting and in his final year, installation. Since leaving education he has worked as an artist and freelance design consultant, book illustrator and most recently as a concept artist for a 3D video game development


company in Islamabad, Pakistan. Aleem has exhibited his work throughout Pakistan and is currently using the artist in residence experience at Swansea Print Workshop as an opportunity for setting up a similar facility in the Northern Areas of Pakistan.

*From a personal perspective, the community workshop programme enabled me to motivate a range of learners and encourage the generation of ideas using the theme; Image, Symbol and Text. It was a great experience, focusing on contemporary art from my home land and sharing information about my personal practices, for which I have a passion. Living close to Mother Nature and my immersion in Pakistani culture, particularly those cultures of the geographically dispersed North, still burn my curiosity regarding the juxtaposition of nature and culture. This is my primary focus.*

*The residency also enabled me to greatly advance my printmaking skills and to create a body of work which reflected my experiences at the workshop.*

*The beautiful landscape of Wales and the time spent with the Welsh people was so inspiring.*





Ac yntau wedi'i eni yn Karimabad, Hunza, bu Aleem yn astudio yn y Coleg Celf Cenedlaethol yn Lahore gan ennill Gradd Anrhydedd yn y Celfyddydau Cain. Bu'n arbenigo mewn paentio ac yn ei flwyddyn olaf, gosodiadau. Ers iddo adael addysg, mae wedi gweithio fel arlunydd ac ymgynghorydd dylunio ar ei liwt ei hun, darlunydd llyfrau ac yn fwy diweddar fel arlunydd cysyniadau i gwmi datblygu gêmâu fideo 3D yn Islamabad, Pacistan. Mae Aleem wedi arddangos ei waith ledled Pacistan ac ar hyn o bryd, mae'n defnyddio'r profiad fel arlunydd preswyl yng Ngweithdy Printio Abertawe fel cyfle i sefydlu cyfleuster tebyg yn ardaloedd gogledd Pacistan.

*O safbwynt personol, mae rhaglen y gweithdy cymunedol wedi fy ngalluogi i ysgogi amrywiaeth o ddysgwyr a hybu cynhyrchu syniadau drwy ddefnyddio'r thema: Delwedd, Symbol a Thestun. Roedd yn brofiad gwych, gan ganolbwyntio ar gelf gyfoes o'm gwlad enedigol a rhannu gwybodaeth am fy arferion personol, yr wyf yn frwd iawn drostynt. Mae byw yn agos at Natur a'r ffaith fy mod i wedi fy nhrwytho'n llwyr yn niwylliant Pacistan, yn arbennig y diwylliannau hynny sy'n perthyn i'r gogledd mwy anghysbell, yn tanio fy nychymyg ynglŷn â chyfodiad natur a diwylliant. Dyma fy mhrif ffocws.*

*Roedd y cyfnod preswyl hefyd wedi fy ngalluogi i hyrwyddo fy sgiliau printio'n fawr a chreu corff o waith sy'n adlewyrchu fy mhrofiadau yn y gweithdy.*

*Roedd tirwedd hardd Cymru a'r amser a dreuliais ymhlith y Cymry wedi fy ysbrydoli.*

## Outreach Artist Alan Williams

Alan Williams was born in Swansea in 1951. He studied printmaking and gained his University of Wales BA in Graphic Art in 1997.

In the same year he co-founded Swansea Print Workshop and remains involved in its teaching programme and with community arts projects sponsored by the workshop and other organisations.

He also teaches printmaking in Higher and Adult education and produces his own etchings, collagraphs and woodcuts.

*The Festival of Muslim Cultures Print Project gave me the potential to build on experience gained on previous outreach projects and was particularly interesting in view of the diverse international and cultural dimensions. The groups I worked with embraced the project with enthusiasm and energy. The initial gallery visit and talk allowed the groups to engage with the work by the Pakistani printmakers and informed the development of their own ideas into a series of successful prints.*

*It was stimulating to work alongside the artists from Pakistan especially within the primary school setting, where the cultural contrasts provided not only a rich source of material for the printmaking but also highlighted the similarities and common ground shared by East and West.*

Ganwyd Alan Williams yn Abertawe ym 1951. Bu'n astudio gwneud printiau ac enillodd radd BA mewn Celf Graffeg o Brifysgol Cymru ym 1997.

Yn yr un flwyddyn, bu'n un o sylfaenwyr Swansea Print Workshop ac mae'n parhau i ymwneud â'i raglen addysgu a phrosiectau celf cymunedol a noddir gan y gweithdy a sefydliadau eraill.

Mae hefyd yn addysgu gwneud printiau mewn gwersi addysg Uwch ac i Oedolion ac yn cynhyrchu ei ysgythriadau a'i dorluniau pren ei hun.

*Rhoddodd Prosiect Printiau Gŵyl y Diwylliannau Mwslimaidd botensial i mi ddatblygu ar brofiad blaenorol a gafwyd o gymryd rhan mewn prosiectau allgymorth ac roedd yn arbennig o ddiddorol oherwydd y dimensiynau rhyngwladol a diwylliannol amrywiol. Ymatebodd y grwpiau y bûm i'n gweithio gyda nhw yn frwdfrydig ac yn egnïol i'r prosiect. Yn ystod yr ymweliad cychwynnol â'r oriel a'r sgwrs, cafodd y grŵp gyfle i ddod i gysylltiad â'r gwaith gan y gwneuthurwyr printiau o Bacistan a hysbysodd hyn ddatblygiad eu syniadau eu hunain, gan greu cyfres o brintiau llwyddiannus.*

*Roedd yn gyffrous gweithio ochr yn ochr â'r artistiaid o Bacistan, yn enwedig yn yr ysgol gynradd, lle roedd cyferbyniadau diwylliannol nid yn unig yn darparu ffynhonnell gyfoethog o ddeunydd ar gyfer gwneud printiau, ond hefyd yn amlgu'r tebygrwydd a'r hyn sy'n gyffredin rhwng y Dwyrain a'r Gorllewin.*



## Outreach Artist Gwenllian Beynon

Gwenllian Beynon was born in Ammanford in 1963. Following a career in nursing she studied Fine Art in Carmarthen and Cardiff before gaining an MA in Printmaking at Wimbledon, London in 1996. Since then she has established herself as a freelance artist. Gwenllian is committed to sharing her skills and knowledge and has led bilingual art-based workshops since 1989. She exhibits and sells her work internationally and is recognised for the reflection of her nationality often visible in her work as she retells traditional stories using symbolism to convey messages.

*Welsh blankets and Islamic artwork were used as references. It was important in the context of my own work to encourage the fusion of Welsh heritage with Islamic design. Some students in the workshops took this on board completely, whilst others developed individual work creating images in relation to their own experiences ... the Workshops were enhanced by the fact that artists from Pakistan had come to share their expertise.*

Ganwyd Gwenllian Beynon yn Rhydaman ym 1963. Ar ôl gyrfa mewn nyrsio, astudiodd Gelfyddyd Gain yng Nghaerfyrddin a Chaerdydd cyn ennill MA mewn Gwneud Printiau yn Wimbledon, Llundain, ym 1996. Ers hynny mae hi wedi sefydlu ei hun fel artist ar ei liwt ei hun. Mae Gwenllian yn ymroddedig i rannu ei sgiliau a'i gwybodaeth ac mae wedi arwain gweithdai celf dwyieithog ers 1989. Mae hi'n arddangos ac yn gwerthu'i gwaith yn rhyngwladol ac wedi derbyn cydnabyddiaeth am adlewyrchu'i chenedligrwydd sydd yn aml yn weladwy yn ei gwaith oherwydd ei bod yn ailadrodd storiâu traddodiadol gan ddefnyddio symbolaeth i gyfleu negeseuon.

*Defnyddiwyd blancedi Cymreig a gwaith celf Islamaidd fel deunydd cyfeirio. Yng nghyd-destun fy ngwaith fy hun, roedd yn bwysig annog ymdoddiad treftadaeth Cymreig a dylunio Islamaidd. Ymgwymerodd rhai myfyrwyr yn y gweithdai hyn yn llwyr a datblygodd rhai eraill waith unigol, gan greu delweddau mewn perthynas â'u profiadau eu hunain ... gwellwyd y Gweithdai gan y ffaith yr oedd artistiaid o Bacistan wedi dod i rannu eu harbenigedd.*



## Outreach Artist Kara Seaman

Originally from Scotland, Kara Seaman graduated from the University of East London in 2002 with a BA in Graphic Fine Art. Since moving to Swansea she has participated in several community based arts projects with an emphasis on photography and printmaking. Using the urban environment as a focus for her work, text and photography is often incorporated, making observations and comparisons of difference between the layout and structure of the towns and cities in South Wales and the lowlands of Scotland.

*Image, Symbol and Text was the core theme and fortunately, particularly relevant to my personal work. Through the process of Cyanotype - which is a photographic process that produces blueprints - the participants in my workshops explored Islamic imagery through drawing and photography.*

*Yn wreiddiol o'r Alban, graddiodd Kara Seaman ym Mhrifysgol Dwyrain Llundain yn 2002 gyda BA mewn Celf Graffeg Gain. Ers iddi symud i Abertawe, mae wedi cymryd rhan mewn nifer o brosiectau celf cymunedol gyda phwyslais ar ffotograffiaeth a gwneud printiau. Gan ddefnyddio'r amgylchedd trefol fel canolbwynt i'w gwaith, ymgorfforir testun a ffotograffiaeth yn aml, gan wneud arsylwadau a chymariaethau rhwng cynllun a strwythur trefi a dinasoedd de Cymru ac iseldiroedd yr Alban.*

*Delwedd, Symbol a Thema oedd y thema graidd ac yn ffodus, roedd honno'n arbennig o berthnasol i'm gwaith personol innau. Drwy'r broses synateip - sef proses ffotograffeg sy'n cynhyrchu printiau glas - archwiliodd y cyfranogwyr yn fy ngweithdai ddelweddaueth Islamaidd drwy ddarlunio a ffotograffiaeth.*





## Outreach Artist Victoria Malcolm

Victoria Malcolm grew up in Tunis, London and Capetown. She trained in Fine Art Painting at Hammersmith College in the mid 1970s before moving to West Wales in the mid 1980s. Here she developed and maintained her practice, studying with artist Mary Lloyd Jones and more recently with the calligrapher Mustafa Ja'far at the British Museum. She studied Arabic calligraphy in order to understand and appreciate the discipline, and to incorporate it into her printmaking practice.

*It is a demanding discipline especially for a messy painter like me but it is such a rich tradition and source of inspiration using colour, calligraphic sections and repeats to emphasise the beauty of curved and sensuous lines. Taking the shapes out of the context of words, I try to highlight the underlying principle of the infinite line and the human qualities of an abstract discipline so easily misunderstood.*

*It was a great honour to be invited to share what I have learnt as part of the Festival. Viewing Arabic calligraphy in all its forms, classical and modern, I guided the participants in their choice of suitable motif-like pieces, which were adaptable to the woodcut process. Some chose letterforms resembling animals, others pure calligraphic design or details from larger pieces, and some used architectural features as a reference for developing their ideas.*

Tyfodd Victoria Malcolm i fyny yn Nhiwnis, Llundain a Capetown. Hyfforddodd mewn Paentio Celfyddyd Cain yng Ngholeg Hammersmith yng nghanol y 1970au cyn symud i orllewin Cymru yng nghanol y 1980au. Yma datblygodd a chynhaliodd ei harfer, gan astudio gyda'r arlunydd, Mary Lloyd Jones, ac yn fwy diweddar, gyda'r caligraffydd Mustafa Ja'far yn yr Amgueddfa Brydeinig. Astudiodd galigraffeg Arabaidd er mwyn deall a gwerthfawrogi'r ddisgyblaeth ac er mwyn ei hymgorffori yn ei harfer gwneud printiau.

*Mae'n ddisgyblaeth ymestynnol, yn enwedig i arlunydd anniben fel fi, ond mae'n sut gymaint o draddodiad a ffynhonnell ysbrydoliaeth cyfoethog, gan ddefnyddio lliw, adrannau caligraffeg ac ailadrodd i bwysleisio prydferthwch y llinellau crwm a theimladwy. Gan ystyried y llinellau y tu allan i gyd-destun geiriau, ceisiaf amlygu egwyddor sylfaenol y llinell anfeidraidd a rhinweddau dynol disgyblaeth haniaethol y gellir ei chamddeall mor hawdd.*

*Roedd yn anrhydedd fawr cael fy ngwahodd i rannu'r hyn rwyf wedi'i ddysgu fel rhan o'r wyl. Gan ystyried caligraffeg Arabaidd ar ei holl ffurfiau, arweiniais y cyfranogwyr yn eu dewis o ddarnau addas sydd fel motiffau, y gellid eu haddasu i'r broses torlunio pren. Dewisodd rhai ffurfiau llythrennau a oedd yn debyg i anifeiliaid, dewisodd eraill ddyluniadau caligraffeg pur neu fanylion o ddarnau mwy, neu nodweddion pensaernïol fel cyfeiriad i ddatblygu'u syniadau.*



## Outreach Artist Nina Morgan

Nina Morgan was born in Swansea in 1978. She attended St. Martins School of Art and Design, and the West Wales School of Art achieving a First Class Honours Degree.

Since graduating she has taught printmaking in schools and institutions across Wales specialising in screen print. Her work has been exhibited in group exhibitions throughout Wales. The themes in her work have evolved through extensive travel in Asia and America. Diverse cultures, architecture, colour, taste and smell are important influences and her images evoke the notion of memory, recreating a personal poignant moment in time.

*Throughout the Print Project I primarily worked with groups of children, which was a wonderful experience; their enthusiasm was overwhelming.*

*I also led a screen print workshop with a group of Muslim women, who produced beautiful and unique designs. They worked on a wide range of themes including calligraphy and architecture, all of which came to life as we listened to traditional music. The women also sang their favourite songs as they worked - the day was an inspirational and cultural experience from my perspective also.*

Ganwyd Nina Morgan yn Abertawe ym 1978. Mynychodd Ysgol Celf a Dylunio Sant Martin ac Ysgol Celf Gorllewin Cymru, gan gyflawni Gradd Anrhydedd Dosbarth Cyntaf.

Ers graddio mae hi wedi dysgu gwneud printiau mewn ysgolion a sefydliadau ar draws Cymru, gan arbenigo mewn printio sgriniau. Arddangoswyd ei gwaith mewn arddangosfeydd grŵp ar draws Cymru. Mae'r themâu yn ei gwaith wedi datblygu drwy deithio estynedig yn Asia ac America. Mae diwylliannau amrywiol, pensaernïaeth, lliw, blas ac arogl yn ddylanwadau pwysig ac mae ei delweddau'n ysgogi ymdeimlad o gof, gan ail-greu eiliad personol a theimladwy o amser.

*Drwy gydol y Prosiect Printio, gweithiais yn bennaf gyda grwpiau o blant, ac roedd hynny'n brofiad hyfryd; roedd eu brwdfrydedd yn ysgubol.*

*Arweiniais weithdy printio sgrîn gyda grŵp o fenywod Mwslimaidd, a gynhyrchodd ddyluniadau prydferth ac unigryw. Gweithiant ar amrywiaeth eang o themâu, gan gynnwys caligraffeg a phensaernïaeth, y daethant i gyd yn fyw wrth i ni wrando ar gerddoriaeth draddodiadol. Canodd y menywod eu hoff ganeuon hefyd wrth iddynt weithio. Roedd y diwrnod yn brofiad ysbrydol a diwylliannol o'n safbwynt innau hefyd.*



## Outreach Artist Sarah Hopkins

Sarah Hopkins gained an MA in Fine Art with Distinction at Swansea Institute of Higher Education in 2003. She has worked in and around Swansea for much of her career as a printmaker, although her travels across Europe and further afield has influenced her work.

With considerable experience as a lecturer and as an arts facilitator, she initiated and managed Swansea Print Workshop's Festival of Muslim Cultures Print Project and is looking forward to developing further links with printmakers in Pakistan. She is currently developing an exchange programme with which communities in Wales and Pakistan can collaborate and enjoy.

*Working on the Festival of Muslim Cultures Print Project has been an unforgettable experience. I am inspired by the fact that the arts can influence societal change, enabling people from diverse backgrounds to enter into the experiences of others, encouraging communities to embrace other cultures and heritages.*

*Travelling to Pakistan to explore the feasibility of developing the programme further, I experienced at first hand enormous cultural differences which were vividly juxtaposed by the warmth of its people and the welcome I received wherever I went. The respect for societal structure embedded in its traditions and daily life, the rich decoration of everything from textiles to public transport set against a rugged and sometimes harsh background of the Northern Areas, combine to create an irreversible visual impact.*

*Informing more that my creative practice, the visit to Pakistan and working with the Pakistani Printmakers has holistically enriched my approach to printmaking.*

Enillodd Sarah Hopkins MA mewn Celfyddydau Cain gyda Rhagoriaeth yn Athrofa Addysg Uwch Abertawe yn 2003. Am lawer o'i gyrfa mae hi wedi gweithio yn Abertawe a'r cylch fel gwneuthurwr printiau, er bod ei theithiau ar draws Ewrop a phellach i ffwrdd wedi dylanwadu ar ei waith.

*Gyda phrofiad sylweddol fel darlithydd a hwyluswr celfyddydau, cychwynnodd a rheolodd Brosiect Printio Gŵyl Diwylliannau Mwslimaidd Gweithdy Printio Abertawe ac mae'n edrych ymlaen at ddatblygu cysylltiadau pellach â gwneuthurwyr printio ym Mhacistan. Ar hyn o bryd mae hi'n datblygu rhaglen gyfnewid y gall cymunedau yng Nghymru a Phacistan gydweithredu arni a'i mwynhau.*

*Mae gweithio ar Brosiect Printio'r ŵyl Diwylliannau Mwslimaidd wedi bod yn brofiad bythgofiadwy. Fe'm hysbrydolwyd gan y ffaith y gall y celfyddydau ddylanwadu ar newid mewn cymdeithas, gan alluogi pobl o gefndiroedd gwahanol i ymwneud â phrofiadau pobl eraill, a chan annog cymunedau i groesawu diwylliannau a threftadaethau eraill.*

*Wrth deithio i Bacistan i archwilio'r posibilrwydd o ddatblygu'r rhaglen ymhellach, cefais brofiad ymarferol o'r gwahaniaethau diwylliannol enfawr a gyfosodwyd yn fyw gan radlonrwydd ei phobl a'r croeso a dderbynais ble bynnag yr es i. Mae'r parch am strwythurau cymdeithas sy'n rhan annatod o'i thraddodiadau a'i bywyd pob dydd, yr addurniadau cyfoethog ar bopeth o decstilau i gludiant cyhoeddus wedi'u cyferbynnu a chefnidir yr Ardaloedd Gogleddol garw a weithiau'n llym, yn cyfuno i greu effaith weledol anwrthdroadwy.*

*Gan hysbysu mwy na'm harfer creadigol, mae'r ymweliad â Phacistan a gweithio gyda Gwneuthurwyr Printiau Pacistanaidd wedi cyfoethogi fy ymagwedd at wneud printiau'n gyfannol.*



## Outreach Artist Sameera Khan

Sameera Khan was born and brought up in Pakistan, and completed her first degree in Fine Art Printmaking at National College of Arts, Lahore in 1999. She gained an MA in Fine Arts from Sheffield Hallam University in 2004.

Sameera Khan is currently the Studio Manager at Swansea Print Workshop. Part of her role at the Workshop is to teach various printmaking methods. She retains her status as a practising artist by making her own artwork and taking part in national and international group shows. Her personal practice revolves around sculpture, installation and printmaking, taking inspiration from her surroundings and everyday life scenarios relating to identity.

*The Festival of Muslim Cultures Print Project very quickly became a dynamic programme. I worked closely with Sarah Hopkins to reach out to international artists; providing them with opportunities to gain international exposure and to work and interact with local groups, particularly with people who wouldn't usually be involved in the Fine Arts. It was a wonderful experience and a privilege to work with schools, colleges, local people and women from ethnic minority backgrounds, helping them to gain an understanding of Islamic Art and Culture, and offering an insight into printmaking methods.*

Cafodd Sameera Khan ei geni a'i magu ym Mhacistan, a chwblhaodd ei gradd gyntaf mewn Gwneud Printiau Celfyddyd Gain yn y Coleg Celfyddydau Cenedlaethol yn Lahore ym 1999. Cafodd MA yn y Celfyddydau Cain ym Mhrifysgol Hallam Sheffield yn 2004.

Ar hyn o bryd mae Sameera Khan yn gweithio fel Rheolwraig Stiwdio yng Ngweithdy Printiau Abertawe. Rhan o'i rôl yn y gweithdy yw addysgu dulliau amrywiol o wneud printiau. Mae'n cynnal ei statws fel artist trwy wneud ei gwaith celf ei hun a chymryd rhan mewn sioeau grŵp cenedlaethol a rhyngwladol. Mae ei harfer personol yn troi o gwmpas cerflunio, gosodiadau a gwneud printiau, ac mae'n cael ei ysbrydoli gan y byd o'i chwmpas a sefyllfaedd bywyd pob dydd sy'n ymwneud â hunaniaeth.

*Datblygodd Prosiect Printiau Gŵyl y Diwylliannau Mwslimaidd yn rhaglen ddeinamig yn gyflym iawn. Gweithiais yn agos gyda Sarah Hopkins i gyrraedd artistiaid rhyngwladol, gan roi'r cyfle iddynt gael sylw rhyngwladol ac i weithio a rhyngweithio gyda grwpiau lleol, yn arbennig gyda phobl na fyddent fel arfer yn ymwneud â'r celfyddydau cain. Roedd yn brofiad gwych ac yn anrhydedd i weithio gydag ysgolion, colegau, pobl leol a menywod o leiafrifoedd ethnig, gan eu helpu i gael dealltwriaeth o gelfyddyd a diwylliant Islamaidd, a chyflwyniad i ddulliau gwneud printiau.*



## Outreach Artist Zena James

Zena James is a Welsh artist whose interest in printmaking developed whilst studying for her degree at Swansea Institute of Higher Education. She further developed her printmaking skills when she was appointed Outreach Artist for Swansea Print Workshop in 2003. She has exhibited her work at venues throughout South Wales. Her work is influenced by life experiences gained whilst living in Europe, Asia and Africa.

*The relationship between an individual and how they function in society can be both supportive and restraining. Cultures are manmade and there are more commonalities between them than differences. It is the former that I aim to incorporate in my art. Working with culturally diverse groups consolidates this element, which can be expressed visually.*

*My role within the Festival of Muslim Cultures Print Project was to lead workshops for asylum seeker groups in the Blaenymaes area of Swansea. The workshops were well attended and the response was hugely positive; 'We had such fun' - this was the consensus as the women left clutching prints that were going straight onto their walls at home.*

*Arlunydd o Gymru yw Zena James a datblygodd ei diddordeb mewn printio wrth astudio ar gyfer ei gradd yn Athrofa Addysg Uwch Abertawe. Datblygodd ei sgiliau printio ymhellach pan gafodd ei phenodi'n Arlunydd Allgymorth ar gyfer Gweithdy Printio Abertawe yn 2003. Mae wedi arddangos ei gwaith mewn lleoliadau ar draws de Cymru. Mae ei gwaith yn cael ei ddylanwadu gan brofiadau bywyd tra'n byw yn Ewrop, Asia ac Affrica.*

*Gall y berthynas rhwng unigolyn a sut mae'n gweithredu mewn cymdeithas fod yn gefnogol ac yn ataliol. Mae diwylliannau wedi'u creu gan ddyn, ac mae mwy o bethau'n gyffredin rhyngddynt nag o wahaniaethau. Y cyntaf rwyf yn ceisio ei gynnwys yn fy nghelf. Mae gweithio gyda grwpiau diwylliannol amrywiol yn atgyfnerthu'r elfen hon, y gellir ei mynegi'n weledol.*

*Fy rôl ym Mhrosiect Printio Gŵyl Diwylliannau Moslemaidd oedd arwain gweithdai ar gyfer grwpiau o geiswyr lloches yn ardal Blaenymaes, Abertawe. Daeth nifer mawr i'r gweithdai ac roedd yr ymateb yn gadarnhaol iawn; 'cawsom gymaint o hwyl' - dyna'r farn gyffredinol wrth i'r menywod adael gyda phrintiau a oedd yn mynd yn syth ar waliau eu cartrefi.*



## Schools and Colleges

Printmakers Alan Williams, Sameera Khan, Nina Morgan and Sarah Hopkins, assisted by artists Peter Visscher, Melanie Lloyd, Kara Seaman and artist in residence Aleem Khan led an extensive programme of talks, demonstrations and workshops for schools and colleges in and around the Swansea area.

The *Contemporary Pakistani Printmakers* exhibition, held at Oriel Ceri Richards at the start of the workshop period, introduced the students to contemporary printmaking from the East. It also provided them with an opportunity to discuss more traditional approaches and general themes in Islamic art. Observing the exhibition first hand and learning about the work enabled them to appreciate the conceptual approach of each piece displayed. This in turn assisted them with the development of their own ideas within the classroom.

